OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2710 (Cy.227)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 9 Tachwedd 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 10 Tachwedd 2010
Yn dod i rym - - 1 Rhagfyr 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 133, 134, 145 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2010.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymiadau, arbedion a darpariaethau trosiannol

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir y Rheoliadau y cyfeirir atynt yn Rhan 1 o Atodlen 1.

(2) Mae'r arbedion a'r darpariaethau trosiannol a grybwyllir yn Rhan 2 o Atodlen 1 yn cael effaith.

Dehongli

4. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**2**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**3**);

ystyr "Rheoliadau 1959" ("*the 1959 Regulations*") yw Rheoliadau Ysgolion 1959(**4**);

(**1**) 2002 p.32. Ystyr "Rheoliadau" yw rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru (*gweler* adran 212(1)).
(**2**) 1996 p.18. Amnewidiwyd Rhan VIII gan Ran 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p.26).
(**3**) 1998 p.30.
(**4**) O.S. 1959/364 fel y'i diwygir gan O.S. 1968/1281, 1969/1777, 1971/342, 1973/2021 a 1978/1144.

ystyr "Rheoliadau 1982" ("*the 1982 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1982(**5**);

ystyr "Rheoliadau 1989" ("*the 1989 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1989(**6**);

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002(**7**); ac

ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**8**).

Y gofyniad i fod yn gymwysedig

5. Ni chaiff neb gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol onid yw—

(a) yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig; neu

(b) yn bodloni gofynion a bennir mewn o leiaf un o'r paragraffau yn Atodlen 2.

Estyn y cyfnod penodedig

6. Os caniateir i unrhyw berson gyflawni'r gwaith a bennir yn rheoliad 7 am gyfnod penodedig yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau Atodlen 2, bydd y cyfnod hwnnw yn cael ei estyn drwy ychwanegu ato gyfnod sy'n hafal i agregiad o unrhyw gyfnod neu gyfnodau pan fydd y person dan sylw'n absennol o'r gwaith—

(a) wrth i'r person hwnnw arfer—

(i) ei hawl i absenoldeb mamolaeth a roddir gan adran 71 neu 73 o Ddeddf 1996(**9**) neu gan gontract cyflogaeth a phan fydd gan y person hwnnw yr hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn rhinwedd y naill neu'r llall o'r adrannau hyn neu gontract cyflogaeth;

(ii) ei hawl i absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o Ddeddf 1996;

(iii) ei hawl i absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A, 80AA, 80B neu 80BB o Ddeddf 1996(**10**); neu

(iv) ei hawl i absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A neu 75B o Ddeddf 1996(**11**); neu

(b) oherwydd beichiogrwydd.

Gwaith penodedig

7.—(1) Mae pob un o'r gweithgareddau canlynol yn waith penodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau ar gyfer disgyblion;

(b) cyflwyno gwersi i ddisgyblion;

(**5**) O.S. 1982/106 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1988/542 a 1989/329.
(**6**) O.S. 1989/1319 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1989/1541, 1990/1561, 1991/1134, 1991/1840, 1991/2240 a 1992/1809.
(**7**) O.S. 2002/1663 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/1717 ac O.S. 2004/1745.
(**8**) O.S. 2004/1729 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/2811 a 2008/215.
(**9**) Diwygiwyd adran 71 gan baragraff 31, ac adran 73 gan baragraff 32, o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p.18) a diwygiwyd y ddwy adran gan adran 17 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p.22).
(**10**) Mewnosodwyd adrannau 80A ac 80B gan adran 1 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 p.22, ac adrannau 80AA ac 80BB (nad ydynt, ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, wedi eu cychwyn) gan adrannau 3 a 4 yn y drefn honno o Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 p.18.
(**11**) Mewnosodwyd adrannau 75A a 75B gan adran 3 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 p.22. Diwygiwyd adran 75A gan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 p.18. Diwygiwyd adran 75B gan baragraff 34 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 p.18.

(c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion; ac

(ch) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

(2) Ym mharagraff (1)(b), mae "cyflwyno" yn cynnwys cyflwyno drwy ddulliau dysgu o bell neu drwy ddulliau dysgu â chymorth cyfrifiadur.

Y gofyniad i fod yn gofrestredig

8. Dim ond os ydynt wedi eu cofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 (cofrestr sy'n cael ei chadw gan y Cyngor Addysgu Cyffredinol) y caiff athrawon cymwysedig gyflawni gwaith a bennwyd yn rheoliad 7 mewn ysgol(**12**).

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

9 Tachwedd 2010

(**12**) Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan y ddarpariaeth hon yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000, O.S. 2000/1979 (Cy. 140) fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2001/2496 (Cy. 200), O.S. 2004/1741 (Cy. 180), O.S. 2006/1343 (Cy. 133) ac O.S. 2009/1353 (Cy. 129).